

# GAMBLING COMMISSION

## **Cynllun yr Iaith Gymraeg**

**Ymgynghoriad, Tachwedd 2009**

# Cynnwys

<b>Cefndir</b>	<b>3</b>
<b>Ymateb i'r ymgynghoriad hwn</b>	<b>3</b>
<b>Cynllun iaith Gymraeg y Comisiwn Hapchwarae</b>	<b>5</b>
<b>1 Cyflwyniad</b>	<b>6</b>
<b>2 Cefndir i'r Comisiwn Hapchwarae</b>	<b>7</b>
<b>3 Hyrwyddo a darparu cynllun iaith Gymraeg y Comisiwn</b>	<b>8</b>
Polisïau, deddfwriaeth, gwasanaethau a mentrau	8
Darparu gwasanaethau	8
Safonau ansawdd	8
Hyfforddi ein gweithwyr cyflogedig	8
<b>4 Ymwneud â'r cyhoedd sy'n medru'r Gymraeg</b>	<b>9</b>
Gohebiaeth	9
Cyfathrebiadau ffôn	9
Cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yng Nghymru	9
<b>5 Ein hwyneb cyhoeddus</b>	<b>10</b>
Cyhoeddiadau	10
Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiol	10
Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio gweithwyr cyflogedig	10
Datganiadau i'r wasg a chysylltu â'r cyfryngau	11
Gwefannau	11
<b>6 Gweithredu'r cynllun</b>	<b>12</b>
Recriwtio	12
Technoleg Gwybodaeth a chyfathrebiadau	12
Trefniadau mewnol	12
Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol	13
<b>7 Monitro'r cynllun</b>	<b>14</b>
Adolygu a diwygio'r cynllun	14
Cwynion ac awgrymiadau dros wella	14
<b>Atodiad 1 Cynllun gwaith - amserlen gweithredu</b>	<b>15</b>
<b>Atodiad 2 Ffurflenni a chyhoeddiadau'r Comisiwn Hapchwarae - manyleb ar gyfer cyfieithu</b>	<b>16</b>

## Cefndir

- i** Yng Ngorffennaf 2008, rhoddodd Gweinidog Treftadaeth y Cynulliad ei gymeradwyaeth i restr o sefydliadau fyddai'n cael eu henwi o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf). Mae'r Comisiwn yn un o'r sefydliadau hynny sydd ac fe'i enwyd fel 'person sydd yn ymddangos fel petai'n ymarfer swyddogaethau a chanddynt natur gyhoeddus' o dan Adran 6/1/o o'r Ddeddf.
- ii** Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynllun drafft iaith Gymraeg y Comisiwn Hapchwarae (y comisiwn). Mae'n amlinellu sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan y Ddeddf, cyhyd â'i fod yn addas o dan yr amgylchiadau ac yn weddol ymarferol, ac wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb.
- iii** Cyflwynwyd y cynllun i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac maen nhw wedi cymeradwyo'r cynllun a'r cyfnod ymgynghori wyth wythnos. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar Dachwedd 30, 2009 ac yn cau ar Ionawr 25, 2010. Bydd pob dogfen ymgynghori ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir lawrlwytho templed ymatebion o wefan y Comisiwn ar [www.gamblingcommission.gov.uk](http://www.gamblingcommission.gov.uk) <<http://www.gamblingcommission.gov.uk>> a byddwn yn gwerthfawrogi pe baech yn gallu defnyddio'r templed hwn wrth gyflwyno'ch sylwadau.

## Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

- iv** Mae'r comisiwn yn gwahodd sylwadau ynglŷn â'r cynllun arfaethedig a byddai'n well ganddo pe bai ymatebwyr yn cwblhau'r templed ymatebion a ddarparir a'i ddanfon drwy gyfrwng e-bost at:  
[consultation@gamblingcommission.gov.uk](mailto:consultation@gamblingcommission.gov.uk)  
<<mailto:consultation@gamblingcommission.gov.uk>> . Mae gwybodaeth a chymorth pellach ar gael o gydlynnydd ymgynghori'r Comisiwn ar yr n cyfeiriad e-bost. Os na allwch ddefnyddio'r templed a ddarparwyd, byddwch cystal â dangos y cwestiynau neu faterion hynny mae'ch sylwadau yn cyfeirio atyn nhw.
- v** Neu gellir danfon ymatebion drwy'r post at:  
  
Y Cydlynnydd Ymgynghori  
Y Comisiwn Hapchwarae  
Victoria Square House  
Victoria Square  
Birmingham  
B2 4BP
- vi** Dyddiad cau'r Comisiwn ar gyfer derbyn ymatebion yw Ionawr 25, 2010.
- vii** Wrth ymateb, byddwch cystal â datgan p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli safbwynt gan sefydliad. Os ydych chi'n ateb ar ran sefydliad, byddwch cystal â'i gwneud yn eglur pa sefydliad rydych yn ei gynrychioli. Os ydych chi'n ateb fel unigolyn, byddwch cystal â datgan eich diddordeb personol.
- viii** Byddwch cystal â nodi gall unrhyw ymatebion a wnewch gael eu gwneud yn gyhoeddus neu eu cyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad oni bai eich bod yn datgan yn eglur eich bod yn dymuno i'ch ymateb neu eich enw gael ei drin yn gyfrinachol. Caiff ymatebion cyfrinachol eu cynnwys mewn unrhyw grynodeb strategol o'r nifer o sylwadau a dderbyniwyd. Os ydych yn ceisio ateb drwy e-bost neu drwy'r wefan, bydd y Comisiwn yn tybio bod eich cydsyniad yn diystyru unrhyw wadiad cyfrinachedd a gynhyrchir gan system TG eich sefydliad, oni bai eich bod yn cynnwys cais penodol i'r gwrthwyneb ym mhrif destun eich cyflwyniad.

- ix** Gall unrhyw wybodaeth neu ddeunydd a ddanfonir atom ac y byddwn yn ei gofnodi fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA). Mae polisi'r Comisiwn ynglŷn â rhyddhau gwybodaeth ar gael ar ofyn neu drwy gyfeirio at ein gwefan ar [www.gamblingcommission.gov.uk](http://www.gamblingcommission.gov.uk). Bydd y Comisiwn yn trin gwybodaeth sydd wedi ei farcio'n gyfrinachol yn unol â hynny a bydd yn datgelu'r wybodaeth hwnnw yn unig i bobl tu allan i'r Comisiwn lle bod angen gwneud hynny er mwyn gweithredu swyddogaeth y Comisiwn neu le bod gofyn i'r Comisiwn yn ôl y gyfraith i ddatgelu gwybodaeth o'r fath. Fel awdurdod cyhoeddus, rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio gyda gofynion yr FOIA a rhaid iddo ystyried unrhyw geisiadau a wneir am wybodaeth o dan y FOIA ar sail achos gan achos. Felly, wrth roi gwybodaeth, os byddwch yn credu gall gwybodaeth benodol fod wdi'i eithrio rhag cael ei ddatgelu o dan yr FOIA, byddwch cystal ag anodi'r ymateb yn unol â hynny er mwyn i ni allu ystyried eich sylwadau.
- x** Caiff yr holl wybodaeth a roddir i'r Comisiwn ei brosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Fodd bynnag, gellir ei ddatgelu i adrannau neu asiantaethau llywodraethol, awdurdodau lleol a chyrff eraill pan fod angen gwneud hynny er mwyn cynnal swyddogaethau'r Comisiwn a lle bod galw cyfreithiol ar y Comisiwn i wneud hynny.
- xi** Bydd y Comisiwn yn ystyried pob ymateb yn ofalus wrth ddod i farn derfynol ynglŷn â'i gynigion, ond bydd yn newid ei safle os yw'n meddwl bod rheswm da yn bodoli dros wneud hynny. Yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad, byd y Comisiwn yn paratoi crynodeb o'r ymatebion, y bydd yn ei gyhoeddi ochr yn ochr â fersiwn terfynol ei Gynllun Iaith Gymraeg.

**Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn  
Hapchwarae**

# 1 Cyflwyniad

- 1.1 O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd baratoi cynllun sydd yn amlinellu sut y gwnaiff ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg.
- 1.2 Dyma gynllun y Comisiwn Hapchwarae (y Comisiwn).
- 1.3 Mae'n disgrifio sut y byddwn yn cyflawni'r egwyddor a sefydlwyd gan y Ddeddf, hyd ei fod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn ymarferol, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb wrth gyflawni busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.
- 1.4 Mae'r cynllun yn cynnwys y gwasanaethau fyddwn ni'n eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Yn y cynllun hwn, golyga'r term 'cyhoedd' unigolion, pobl gyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei chyfanrwydd, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r ymadrodd yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Caiff cyfarwyddwyr ac eraill sydd yn cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd eu cynnwys o fewn ystyr yr ymadrodd 'cyhoeddus'. Dyw e ddim fodd bynnag, yn cynnwys personau sydd yn ymddwyn o dan swyddogaeth sydd yn cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad i hyn, dydy personau cyfreithiol sydd yn cyflawni swyddogaethau swyddogol ynghyd â natur gyhoeddus ddim yn gynwysedig o fewn ystyr y gair cyhoeddus wrth iddyn nhw gyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.
- 1.5 Caiff ein cyfathrebiadau cychwynnol eu targedu at y sefydliadau a'r unigolion hynny sydd yn gysylltiedig â darpariaeth hapchwarae o fewn Prydain Fawr a hapddalwyr eraill a chanddynt ddiddordeb mewn hapchwarae.
- 1.6 Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ynglŷn â chwmpas ac amcan cynlluniau'r iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) ([www.Welsh-language-board.org.uk](http://www.Welsh-language-board.org.uk)).
- 1.7 Paratowyd y cynllun hwn o dan Adran 14 o'r Ddeddf - yn unol â'r canllawiau a godwyd gan y Bwrdd o dan Adran 9 o'r Ddeddf. Daeth i rym ar [Gwanwyn 2010].

## 2 Cefndir i'r Comisiwn Hapchwarae

- 2.1** Sefydlwyd y Comisiwn o dan y Ddeddf Hapchwarae 2005 i reoleiddio hapchwarae masnachol ym Mhrydain Fawr. Mae ein cylch gwaith yn cynnwys arcedau, betio, bingo a casinos yn ogystal â lotrïau a gweithredwyr ar-lein.
- 2.2** Caiff bron ein holl weithgarwch ei lywodraethu gan dri amcan trwyddedu a amlinellir yn Adran Un o'r Ddeddf Hap Chwarae. Cadw troseddu allan o hap chwarae, sicrhau bod hapchwarae yn deg ac agored ac amddiffyn plant ac oedolion sydd yn agored i niwed rhag cael eu difetha neu eu hecsploetio gan hap chwarae, yw'r tri amcan. Gweithiwn yn agos gyda'r diwydiant hap chwarae er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r amcanion yma ac ymgynghorwn yn agos gydag ystod eang o fudd-ddeiliad gan gynnwys gweithredwyr hap chwarae, grwpiau ffydd, elusennau hap chwarae a chyfreithwyr ar bolisiau sydd yn cefnogi'r amcanion yma. Rydym hefyd yn ystyried yr arfer gorau ym Mhrydain Fawr a thramor, gan sgwrsio â chydweithwyr mewn awdurdodaethau eraill yn Ewrop, yr UDA ac Awstralia a'r Dwyrain Pell.
- 2.3** Cyflawnwn ein cylch gwaith drwy'r pedwar amcan strategol canlynol:
- **Rheoleiddio hap chwarae er budd y cyhoedd:** drwy gyflenwi cyfundrefn reoleiddiol gyfrannol sydd yn cyflenwi'r arfer gorau wrth drwyddedu a gorfodi ac yn sicrhau bod trwyddedwyr yn cydymffurfio.
  - **Darparu cyngor awdurdodol ar hap chwarae a'i reoleiddio:** drwy adeiladu sail wybodaeth y Comisiwn drwy reoli gwybodaeth, hysbysrwydd ac ymchwil.
  - **Gweithio'n agos gyda budd-ddeiliad:** i sicrhau bod y Comisiwn yn atebol, yn gytbwys ac yn wybodus am ei waith.
  - **Datblygu ei weithwyr cyflogedig, a threfniadaeth y sefydliad:** er mwyn cyflenwi rheoleiddio proffesiynol, ymatebol, atebol a theg.
- 2.4** Gellir dodo hyd i'n polisïau a gweithdrefnau ar ein gwefan ar [www.gamblingcommission.gov.uk](http://www.gamblingcommission.gov.uk) Mae'r rhain yn cynnwys amodau trwyddedu a chodau ymarfer (LCCP) sydd yn rhaid i weithredwyr hap chwarae eu dilyn.
- 2.5** Lleolir y Comisiwn yn Birmingham ac mae ganddo dros fwy na 200 o weithwyr cyflogedig gyda thua 60 wedi eu lleoli yn y maes.

## **3 Hyrwyddo a Chyflenwi cynllun iaith Gymraeg y Comisiwn**

### **Polisiâu, deddfwriaeth, gwasanaethau a mentrau**

- 3.1** Bydd ein polisiâu, mentrau a gwasanaethau yn gyson gyda'r cynllun hwn. Byddan nhw'n cefnogi'r defnydd a wneir o'r Gymraeg a phryd bynnag yw'n ymarferol, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau bob dydd.
- 3.2** Pan yw'n ymarferol, caiff ein dogfennau ymgynghori eu defnyddio i drafod y berthynas rhwng yr iaith Gymraeg a'r polisiâu sydd yn cael eu datblygu.
- 3.3** Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygiad neu gyflenwi'r polisiâu o dan arweiniad sefydliadau eraill byddwn yn gwneud hynny mewn modd sydd yn gyson â'r cynllun hwn.
- 3.4** Byddwn yn cyhoeddi'r cynllun hwn ar y fewnwyd er mwyn sicrhau bod holl weithwyr cyflogedig, yn enwedig y sawl sydd yn ymwneud â ffurfio polisi, yn ymwybodol o ofynion y Ddeddf a'r cynllun iaith Gymraeg hwn.

### **Cyflenwi gwasanaethau**

- 3.5** Byddwn yn sicrhau fod cymaint o'n gwasanaethau â phosib ar gael yn y Gymraeg - a byddwn yn gadael i'r cyhoedd wybod pan fyddan nhw ar gael.

### **Safonau ansawdd**

- 3.6** Bydd y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru a Lloegr yn gyfartal o ran ansawdd a bydd gyda nhw'r un raddfa amser.

### **Hyfforddi ein gweithwyr cyflogedig**

- 3.7** Er mwyn hyrwyddo cynllun yr iaith Gymraeg, byddwn yn rhoi cymorth i weithwyr cyflogedig drwy gynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i'r sawl sy'n dymuno datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ysgrifenedig neu ar lafar fel cymorth i'w swyddogaeth yn y Comisiwn. Thoddir blaenoriaeth i weithwyr rheng flaen sydd yn gweithio gyda phobl yng Nghymru.



## 4 Ymwneud â'r cyhoedd sy'n medru'r Gymraeg

- 4.1 Pan fyddwn yn gwybod bod unigolyn yn dymuno cyfathrebu â ni yn Gymraeg byddwn yn anodi cofnod o hyn ar ein sustem rheoli perthynas â chwsmer yn unol â hynny.

### Gohebiaeth

- 4.2 Dyma fydd ein harfer arferol:
- 4.3 Pan fyddwn yn dechrau gohebu gydag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg yn unig pan fyddwn eisoes yn gwybod byddai'n well ganddyn nhw ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.4 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn y Gymraeg byddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes gofyn am ateb). Byddwn fel arfer yn cydnabod ymholiad neu gŵyn o fewn tri diwrnod gwaith.
- 4.5 Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer fydd i sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd.
- 4.6 Bydd amgaeadau a ddanfonir gyda llythyrau ddwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael.
- 4.7 Byd amgaeadau a ddanfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.
- 4.8 Bydd yr uchod yn wir am ohebiaeth e-bost yn ogystal â gohebiaeth papur.

### Teleffon

- 4.9 Oherwydd ein lleoliad (lleolir y Comisiwn yn Birmingham) nid yw'n ymarferol i ni gynnal sgysiau ar y ffôn yn y Gymraeg. Fodd bynnag, os byddwn yn cynnal llinell gymorth ar y ffôn neu gyfleuster tebyg i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn darparu gwasanaeth iaith Gymraeg. Caiff hyn ei hysbysebu ochr yn ochr â'r gwasanaeth drwy gyfrwng yr iaith Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

### Cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yng Nghymru

- 4.10 Croesawir cyfraniadau gan y cyhoedd naill yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 4.11 Bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael ar gyfer cyfarfodydd agored /ymgyngoriadau yng Nghymru.
- 4.12 Bydd yr holl gyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd yng Nghymru yn ddwyieithog a bydd gwahoddiad i bob un sy'n dod i roi gwybod i'r Comisiwn ynglŷn â'u dewis iaith o flaen llaw.
- 4.13 Os ar gael, bydd taflenni a chyflwyniadau yn ddwyieithog mewn cyfarfodydd lle defnyddir yr iaith Gymraeg.

## 5 Ein hwyneb cyhoeddus

### Cyhoeddiadau

- 5.1 Byddwn fel arfer yn cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn Atodiad 2, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen lle bynnag yw'n bosibl.
- 5.2 Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai dogfen unigol yn rhy fawr a swmpus), bydd y ddau fersiwn o'r un ansawdd a maint - a byddai'n ffyrdd arferol o weithredu yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch â'i gilydd. Bydd y ddwy fersiwn yn nodi'n glir fod y defnydd ar gael yn yr iaith arall.
- 5.3 Os nad yw ar gael am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad uniaith - a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yr un peth.
- 5.4 Bydd yr un peth yn wir am ddeunydd sydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu fel arall.
- 5.5 Byddwn yn paratoi rhaglen, i'w gytuno gyda'r Bwrdd, yn amlinellu sut byddwn yn cynyddu argaeledd ein cyhoeddiadau dwyieithog, dros amser.

### Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiol

- 5.6 Byddwn yn sicrhau bod yr holl ffurflenni a'r nodiadau canllaw a ddefnyddir gan y cyhoedd yng Nghymru yn hollol ddwyieithog, yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn Atodiad 2. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefan.
- 5.7 Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai dogfen unigol yn rhy fawr a swmpus), bydd y ddau fersiwn o'r un ansawdd a maint - a byddai'n ffyrdd arferol o weithredu yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch â'i gilydd. Bydd y ddwy fersiwn yn nodi'n glir fod y defnydd ar gael yn yr iaith arall.
- 5.8 Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth ar fersiynau Cymraeg ffurflenni a ddanfonir i'r cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 5.9 Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a ddanfonir i'r cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod byddai'n well gan y derbynydd gael yr wybodaeth yn y Gymraeg neu Saesneg yn unig.
- 5.10 Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r amodau uchod.

### Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio gweithwyr cyflogedig

- 5.11 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio gweithwyr cyflogedig a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfrwng tebyg) a ddosbarthir yn bennaf neu yn gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn ymddangos yn y Gymraeg.
- 5.12 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal yn nhermau fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd - p'un a'u cynhyrchwyd fel fersiwn dwyieithog sengl, neu'n hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

- 5.13 Gall hysbysiadau recriwtio a ddodir mewn rhifynnau Saesneg eu hiaith (a chyhoeddiadau eraill) sydd yn cael eu dosbarthu ar hyd y DU, fo yn Saesneg yn unig oni bai fod y swydd yn un lle mae'r angen i siarad Cymraeg yn hanfodol, os felly, gall yr hysbysiad fod yn hollol ddwyieithog, neu yn Gymraeg ag eglurhad byr mewn Saesneg.
- 5.14 Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol eraill, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio gweithwyr cyflogedig a ddodir unrhyw le arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

### **Datganiadau i'r wasg a chysylltiadau gyda'r cyfryngau**

- 5.15 Caiff datganiadau i'r wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru eu rhyddhau yn y Gymraeg lle bydd terfynau amser yn caniatáu.
- 5.16 Byddwn yn dangos fersiynau iaith Gymraeg o ddatganiadau i'r wasg ar ein gwefan, os byddan nhw ar gael.

### **Gwefannau**

- 5.17 Bydd ein gwefan yn cynnwys tudalennau yn Saesneg a Chymraeg. Mae botwm Cymraeg ar gael ar y bar offer ar dudalen cartref ein gwefan er mwyn caniatáu mynediad hawdd i fersiynau Cymraeg o ddogfennau.
- 5.18 Byddwn yn cymryd *Safonau a Chanllawiau ar gyfer Meddalwedd Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ystyriaeth wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu ein gwefannau presennol ynghyd ag unrhyw gyfarwyddyd arall a roddir gan y Bwrdd mewn perthynas â datblygu gwefannau.
- 5.19 Pa bryd bynnag byddwn yn rhoi cyhoeddiadau iaith Saesneg ar ein gwefannau, caiff fersiynau Cymraeg eu doddi yno ar yr un pryd, os ar gael.

## 6 Gweithredu'r Cynllun

- 6.1** Does gyda ni ddim swyddfeydd yng Nghymru. Er hynny, byddwn yn ceisio cael gwybodaeth ynglŷn â sgiliau iaith Gymraeg y sawl sydd yn ceisio am swydd a gweithwyr cyflogedig presennol.

### Recriwtio

- 6.2** Byddwn yn ystyried p'un a ddylai bod yn rhugl yn y Gymraeg fod yn fedr sydd yn ddymunol neu'n hanfodol ar gyfer swyddi sydd yn gofyn am ddod i gyswllt helaeth a rheolaidd gyda'r cyhoedd yng Nghymru - ac fe gaiff hyn ei ddatgan mewn cymwysterau swydd a hysbysebion.

### Technoleg gwybodaeth a chyfathrebiadau

- 6.3** Byddwn yn cwrdd â'r angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau drwy gyfrwn y Gymraeg, yn unol â'r cynllun, wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch technoleg gwybodaeth a chyfathrebiadau a gwasanaethau
- 6.4** Wrth i ni ddatblygu neu gaffael systemau byddwn yn cymryd Safonau a Chanllawiau ar gyfer Meddalwedd Dwyieithog y Bwrdd i ystyriaeth.

### Trefniadau mewnol

- 6.5** Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.
- 6.6** Bydd gan reolwyr y cyfrifoldeb o roi'r agweddau hynny o'r cynllun ar waith sydd yn berthnasol i'w gwaith.
- 6.7** Bydd y Rheolwr Materion Corfforaethol yn cydlynu'r gwaith sydd angen ei wneud i gyflenwi, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.
- 6.8** Byddwn yn paratoi ac yn diweddarau cynllun gwaith manwl i'w gytuno â'r Bwrdd yn barhaus gan amlinellu sut byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw cynllun gwaith yma'n weithredol ar y dyddiad y daw'r cynllun ei hun yn weithredol. Byd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd pob targed. Nod pennaf pob cynllun gwaith fydd i sicrhau ein bod yn cyflenwi'r ymrwymadau a amlinellwyd yn y cynllun hwn cyn gynted a bo modd.
- 6.9** Bydd y cynllun yn cael ei hysbysu ar ein gwefan.
- 6.10** Byddwn yn cynhyrchu cyfarwyddyd ar gyfer ein gweithwyr cyflogedig i sicrhau eu bod yn gwybod sut i roi'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun ar waith.
- 6.11** Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddiant ar gyfer ein gweithwyr cyflogedig er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn â'r cynllun - ac i egluro sut y bydd yn effeithio ar u gwaith o ddydd i ddydd. Bydd peidio a gweithredu yn unol â'r cynllun yn fater disgyblu.
- 6.12** Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio cyfieithwyr neu ladmeryddion cymwysedig i gyfieithu defnydd electronig ac argraffedig ac ar gyfer cyfieithu ar y pryd. Byddwn yn disgwyl i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad tebyg.
- 6.13** Ymgwymerir ag unrhyw gytundeb gyda'r cyhoedd yng Nghymru, sydd heb ei drin gan y cynllun hwn yn benodol, mwn modd sydd yn gyson â'r egwyddorion cyffredinol a gedwir o fewn cynllun hwn

## Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

- 6.14** Byddwn yn gweithredu yn unol â chyngor y Bwrdd ynglŷn â *Deddf yr Iaith Gymraeg, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol*.
- 6.15** Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn ei gyfieithu i'r Gymraeg lle yw'n rhesymol o ymarferol. Os benderfynwn ni na allwn ni roi'r wybodaeth yn y fformat hwnnw, yna fe wnawn ni ysgrifennu at y person a wnaeth y cais gan roi'r rhesymau.

## 7 Monitro'r cynllun

### Adolygu a diwygio'r cynllun

- 7.1 Byddwn yn monitro'n cynnydd wrth gyflenwi'r cynllun hwn yn erbyn y targedau sydd yn ein cynllun gwaith sydd yn cyd-fynd â hwn. Byddwn yn adrodd yn ôl i fwrdd rheoli'r Comisiwn ar y cynnydd hwnnw.
- 7.2 Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd yn ôl yn cynnwys cyfeiriadau at gynnydd wrth gyflenwi'r cynllun hwn, fel yw'n addas.
- 7.3 Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd wrth gyflenwi'r cynllun hwn i'r Bwrdd, yn ôl y gofyn.
- 7.4 Ein nod yw sicrhau ein bod yn ymddwyn yn unol gyda nodau ac amcanion y cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym. Byddwn yn defnyddio gweithdrefn hunan asesu, i'w gytuno gyda'r Bwrdd, er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y targed hwn.
- 7.5 Byddwn yn adolygu'r cynllun yma o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym ac ar unrhyw adeg arall a bennir ei fod yn addas o ganlyniad i newidiadau i'n swyddogaethau, neu yn yr amgylchiadau y byddwn yn ymgymryd â'r swyddogaethau hwnnw, neu am unrhyw reswm arall.
- 7.6 Ni chaiff unrhyw newidiadau eu gwneud i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

### Cwynion ac awgrymiadau dros wella

- 7.7 Dylid cyfeirio cwynion sydd yn berthnasol i'r cynllun hwn, neu unrhyw awgrymiadau dros wella at:

Y Rheolwr Materion Corfforaethol  
The Gambling Commission  
Victoria Square House  
Victoria Square  
Birmingham  
B2 4BP

Neu drwy e-bost at: [cymraeg@gamblingcommission.gov.uk](mailto:cymraeg@gamblingcommission.gov.uk)

- 7.8 Byddwn yn cyd-weitio gyda'r Bwrdd er mwyn datrys cwynion - ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gaiff eu cynnal o dan Adran 17 o'r Ddeddf.

### Cwestiwn Ymgynghori

1. Oes gyda chi unrhyw sylwadau i'w gwneud mewn perthynas â chynllun iaith Gymraeg drafft y Comisiwn?

## Atodiad 1: Cynllun Gwaith - Rhoi Cynllun yr Iaith Gymraeg ar Waith

Blaenoriaeth	Gweithred	Dyddiad cwblhau arfahedig	Sylwadau
Uchel	Adnabod siaradwyr Cymraeg o fewn y Comisiwn	Wedi'i gwblhau, i'w wirio'n flynyddol	Rheolwyr Cydymffurfiaeth sydd yn gweithredu yng Nghymru – mae un ohonynt yn siaradwr Cymraeg ac mae'r llall ar hyn o bryd yn mynychu dosbarthiadau iaith. Ceir un siaradwr Cymraeg yn VSH ac mae gweithiwr cyflogedig arall yn mynychu dosbarthiadau iaith ar hyn bryd.
Uchel	Adnabod sefydliadau cyfieithu	Wedi'i gwblhau	the big word a K International plc
Canolig	Casglu rhestr o ffurflenni allweddol i'w cyfieithu er mwyn caniatáu i weithredwyr hapchwarae gwblhau prosesau yn y Gymraeg os oes gofyn	erbyn Mai 1, 2011	
Canolig	Casglu rhestr o holl gyfarwyddyd allweddol a dogfennau cynghori er mwyn eu cyfieithu i'r Gymraeg	erbyn Mai 1, 2011	
	Cytuno ar y rhestrau uchod gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r rhaglen i'w roi ar waith	Erbyn mis Awst 2011	
Uchel	Paratoi un dudalen o'r wefan yn y Gymraeg i ddangos bod yr holl ddogfennau ar ael yn y Gymraeg ar ofyn	Wedi'i gwblhau	Gwefan newydd i'w lansio erbyn mis Gorffennaf. Mae hwn yn cynnwys botwm Cymraeg ar y dudalen cartref sydd wedi'i gysylltu i dudalen Gymraeg fydd yn dweud wrth bobl fod gyda ni siaradwyr Cymraeg yn y Comisiwn a bod dogfennau ar gael yn y Gymraeg ar ofyn.
Canolig	Ystyried pa feysydd arall o wefan y Comisiwn gellir eu cyfieithu i'r Gymraeg	Erbyn Mai 1, 2011	
Uchel	Paratoi ymateb ebost i ymholiadau yn y Gymraeg o'r wefan	Wedi'i gwblhau	
Canolig	Adolygu polisiâu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda Chynllun yr Iaith Gymraeg	Erbyn Mai 1, 2011	Mae hyn yn cynnwys polisiâu Adnoddau Dynol ar recriwtio, hyfforddiant a pholisiâu cyhoeddi.
Canolig	Ystyried unrhyw anghenion hyfforddi sydd gan weithwyr cyflogedig, yn enwedig ar yfer y sawl sydd yn Reolwyr Cydymffurfiaeth a chanddynt gylch gwaith Cymreig.	Gwaith barhaus – rhan o broses rheoli perfformiad arferol	Mae un Rheolwr Cydymffurfiaeth eisoes yn mynychu dosbarthiadau dysgu Cymraeg
Canolig	Codi ymwybyddiaeth o gyflwyniad y cynllun hwn gyda holl fudd-ddeiliaid y Comisiwn	Mawrth 2010	

## Atodiad 2: Cyhoeddiadau a ffurflenni'r Comisiwn Hapchwarae

### Manyleb ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg

Nod y cyfarwyddyd yw helpu'r Comisiwn benderfynu p'un a ddylid cyfieithu deunydd i'r Gymraeg neu beidio, naill ai fel dogfennau dwyieithog neu'n fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bwriad y cyfarwyddyd yw bod yn hyblyg a ddim yn rhagnodol. Fel y gwelir yng nghyfarwyddyd cynllun yr Iaith Gymraeg "gellir ystyried budd pob mesur i ddefnyddio'r Gymraeg yn erbyn y gost ariannol neu mewn adnoddau o'i wneud."

Cyhoeddir y rhan fwyaf o ddeunydd y Comisiwn yn uniongyrchol ar ein gwefan, sef, [www.gamblingcommission.gov.uk](http://www.gamblingcommission.gov.uk)

Dylid ystyried y meini prawf canlynol wrth ystyried a ddylid cyfieithu deunydd i'r Gymraeg

1. **Y gynulleidfa darged neu statws.** Er enghraifft, ydy'r wybodaeth wedi ei anelu at
  - Y cyhoedd
  - Sector arbennig sydd yn cynrychioli unigolion sydd yn siarad Cymraeg
  - Unigolion sydd y cynrychioli grwpiau penodol o siaradwyr Cymraeg
2. **Deunydd testun.** Er enghraifft, a fyddai cyhoeddi'r ddogfen neu'r ffurflen yn Saesneg yn allgau mynediad at wybodaeth gan siaradwyr Cymraeg yn benodol?
3. **Diddordeb gan y Cyfryngau.** Er enghraifft, ydy'r cyhoeddiad yn debygol o ddenu sylw sylweddol gan y cyfryngau Cymraeg eu hiaith?
4. **Dogfennau ymgynghori.** Ydy'r cyhoeddiad yn ddogfen ymgynghori? Os ydy hi:
  - Ydy'r ddogfen yn berthnasol i fudd-ddeiliaid yng Nghymru yn unig?
  - Ydy'r ddogfen yn berthnasol i gynulleidfa eang, yn enwedig budd-ddeiliad yng Nghymru?
  - Ydy'r ddogfen yn berthnasol i'r cyhoedd?

Yn ychwanegol i hyn, rhaid ystyried y canlynol ymhob achos er mwyn sicrhau ei fod yn economaidd ymarferol i ddarparu fersiwn Gymraeg o ddogfen neu ffurflen:

- Y nifer o gopïau i'w hargraffu bob blwyddyn ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru a sut fodd y dosbarthir y rhain yn effeithiol.
- Y nifer o dudalennau /geiriau mewn fersiwn iaith sengl o gyhoeddiad neu ffurflen ac felly'r gost o gynhyrchu fersiynau dwyieithog neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- Y cyfnod amser sydd ei angen er mwyn cyfieithu, cysodi, prawf ddarllen a chymeradwyo fersiynau Cymraeg. Rhaid cynnwys amseroedd dirwyn yn y broses cynllunio i sicrhau cwrdd â dyddiadau cwblhau yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg
- Hyd oes y ddogfen. Er enghraifft, cyhoeddiad cyfarwyddyd sydd â hirhoedledd cyfyngedig ac sy'n debygol o gael ei ddisodli'n aml.

Dylid cadw cofnod o'r penderfyniad a gymerir mewn perthynas â phob cyhoeddiad neu ffurflen a gynhyrchir neu a gaiff ei ddiwygio. Cyfrifoldeb perchennog/awdur y cyhoeddiad/ffurflen yw hon.



## Yn Cadw hapchwarae'n deg a diogel i bawb

---

Am fwy o wybodaeth neu i gofrestri eich diddordeb yn y Comisiwn, byddwch cystal ag ymweld â'n gwefan ar: **[www.gamblingcommission.gov.uk](http://www.gamblingcommission.gov.uk)**

Y Comisiwn Hapchwarae  
Victoria Square House  
Victoria Square  
Birmingham B2 4BP  
**Ffôn:** 0121 230 6666  
**Ffacs:** 0121 230 6720  
**E-bost:** [info@gamblingcommission.gov.uk](mailto:info@gamblingcommission.gov.uk)

**CON 09/14W**